# Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru

## Crynodeb o'r adroddiad ar amrywio llwybrau i'r proffesiwn addysgu

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU

Ym **mis Ebrill 2022**, roedd 151 o fyfyrwyr yn astudio ar flwyddyn gyntaf Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru.
Gwahoddwyd myfyrwyr i gwblhau arolwg ar-lein a gwirfoddoli i gael eu cyfweld am eu profiadau o astudio naill ai'r TAR rhan-amser neu gyflogedig. Dyma grynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad llawn.

**41** Myfyrwir TAR wedi ymateb i'r arolwg ar-lein

**21** Yn hyfforddi ar y llwybr cyflogedig

**20** Yn hyfforddi ar y llwybr rhan-amser

**32** Yn hyfforddi i addysgu cynradd

**9** Yn hyfforddi i addysgu uwchradd

**9** Myfyriwr TAR a gyfwelwyd

### Amgylchiadau'r cartref

Yn union cyn dechrau'r cwrs TAR

**Dywedodd 17 o'r 35 o** ymatebwyr i'r arolwg (49%) eu bod wedi ennill incwm cartref o **dan £26,000.**

**Mae gan 24 o'r 41 o** ymatebwyr i'r arolwg (59%) **blant yn eu haelwyd.**

### Cyflogaeth a phrofiad gwaith

Roedd 39 allan o 41 (95%) mewn swydd cyflogedig yn union cyn y TAR

Roedd 35 allan o 39 (90%) yn gweithio 16-38 oriau yr wythnos

Roedd 30 allan o 39 (77%) wedi eu cyflogi ym myd addysg

*Roeddwn yn hoffi'r syniad ei fod dros **gyfnod hir o amser** gan y gallwn gael mwy o brofiad, ac **roedd agwedd ariannol** y llwybr cyflogedig yn bwysig. Roeddwn i eisiau parhau â'm haddysg ond doeddwn i ddim eisiau rhagor o fenthyciadau. (Myfyriwr cynradd, cyflogedig)*

### Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru fel llwybr i addysgu

Y prif reswm dros ddewis TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yn hytrach na TAR llawn amser blwyddyn:

**Angen ennill incwm**
(21 allan o 34, 62%)

Roedd chwech o'r 41 o ymatebwyr (15%) wedi gwneud cais yn flaenorol i gwrs TAR llawn amser.

Mae'r rhesymau eraill dros ddewis TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yn cynnwys:

- Ymrwymiadau teuluol a gofal plant presennol
- Awydd i aros yn y swydd bresennol
- Angen cael profiad gwaith yn gyntaf
- Awydd i barhau ag ymrwymiadau eraill ynghyd ag astudio
- Ffafrio dysgu seiliedig ar waith

**Mae gan lawer o** athrawon dan hyfforddiant (36 allan o 41, 88%) brofiad gwaith mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai addysgol:




*Ebrill 2022*

## Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru

*Roeddwn i eisiau **aros yn fy swydd** ac felly roedd gallu hyfforddi a dal i weithio yn apelio ataf - roeddwn i'n hapus yn fy ngwaith. (Myfyriwr uwchradd, cyflogedig)*

*Ni fyddwn yn hyfforddi i addysgu heb allu gwneud y **cwrs rhan-amser** hwn. (Myfyriwr uwchradd, rhan-amser)*

## Pa nodweddion o'r Rhaglen TAR sy'n eich helpu i lwyddo?

Nododd rhai myfyrwyr fwy nag un nodwedd, a'r prif elfennau oedd:

**Hyblygrwydd astudio/astudio ar-lein ar eich cyflymder eich hun** (14 allan o 41 o ymatebwyr)

**Deunyddiau ar-lein llawn gwybodaeth a hygyrch** (10 allan o 41 o ymatebwyr)

**Nodweddion** allweddol eraill **yr adroddwyd eu bod yn darparu cymorth:**

Tiwtor y Cwricwlwm

Darlithoedd a seminarau ar-lein

Mentor

Tiwtor Ymarfer

Gweithgareddau Ymarfer Dysgu

*Teimlaf fod yr **hyblygrwydd** wrth astudio'r modiwlau yn ddefnyddiol iawn. Rwyf wedi defnyddio cynllunydd **astudio** modiwl i greu rhestr wirio ar gyfer y modiwlau, sydd wedi fy ngalluogi i gynllunio fy amser astudio yn well. (Myfyriwr cynradd, rhan-amser)*

*Rwy'n ddiolchgar am yr **agwedd gyflogedig**, mae hyn yn golygu bod gennyf fwy o **amser i fyfyrio** ar fy addysgu ac ar addysgu eraill na phetawn ar cwrs TAR un blwyddyn. (Myfyriwr cynradd, rhan-amser)*

Cyfeiriodd yr athrawon dan hyfforddiant a gyfwelwyd at y llwyth gwaith yr oeddent yn teimlo oedd yn perthyn i'r rhaglen. Ac eto, roeddent yn croesawu'r gefnogaeth o ansawdd uchel gawsant.

## Ehangu mynediad i'r proffesiwn addysgu

Pam ydych chi am addysgu?

**Mae 23 o'r 40 o ymatebwyr** arolwg (58%) yn cael eu hysgogi i addysgu drwy fod eisiau **gwneud gwahaniaeth** ac ysbrydoli plant.

**Mae 15 o'r 40** o ymatebwyr (38%) yn cael eu hysgogi gan eu bod am ddatblygu eu gyrfa mewn addysg/ cyflawni **uchelgais** mewn addysg drwy gwblhau'r TAR.

**Mae 7 o'r 40 o** ymatebwyr (18%) yn cael eu hysgogi gan eu **hangerdd dros** addysgu yn gyffredinol a/neu am eu pwnc.

Roedd athrawon dan hyfforddiant hefyd yn teimlo bod **cynnig hyblygrwydd a chymorth ariannol** yn hanfodol i lwyddiant ehangu mynediad i'r TAR a'r proffesiwn addysgu yn y dyfodol.

**Mae Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar arallgyfeirio gweithlu addysgu'r dyfodol.**

Mae'r rhaglen yn parhau i ddenu carfan amrywiol o fyfyrwyr gyda mwy o bobl yn y grwpiau oedran hŷn, sy'n dod â blynyddoedd o brofiad gwaith a sgiliau bywyd gyda nhw o leoliadau addysgol a rhai nad ydynt wedi dod o'r byd addysgol.

*Rwy'n gyffrous gyda'r llwybr rwyf wedi'i ddewis, ond yn nerfus ar gyfer y dyfodol, gan nad yw'n hawdd jyglo'r cyfan, ond **roeddwn i eisiau gyrfa** ac nid oedd fy swydd bresennol yn rhoi hynny i mi. (Myfyriwr cynradd, rhan-amser)*

*Ebrill 2022*